# Adroddiad Arolygu

**Heather Williams**

**Porth Tywyn**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Mehefin 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant wir yn mwynhau eu hamser gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn cael hwyl ac yn chwerthin. Maent yn mwynhau eu chwarae yn fawr ac yn dangos lefelau ymgysylltu uchel yn eu gweithgareddau dewisol. Mae ganddynt lais cryf iawn yn y lleoliad hwn.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ragorol o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n garedig ac yn fagwrus gyda'r plant ac yn rheoli eu hymddygiad yn dda iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, yn groesawgar ac yn drefnus iawn i gefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae ystod ardderchog o adnoddau dan do ac awyr agored ar gael i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn monitro'r amgylchedd yn dda i nodi a dileu unrhyw risgiau amhriodol i ddiogelwch y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig, ac yn amlwg yn mwynhau ei rôl. Mae ei gweledigaeth a'i hymdeimlad o ddiben yn cynnal gwelliannau ac yn hyrwyddo canlyniadau rhagorol i'r plant. Mae'n cynnal ei datblygid proffesiynol ei hun gan sicrhau ei bod yn parhau i ddatblygu a gwella yn ei rôl. Mae wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r rhieni ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod y plant yn cael eu meithrin mewn amgylchedd cartref diogel ac ysgogol.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus a diddorol ac mae ganddynt lais cryf iawn yn y lleoliad. Maent yn hapus yn gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr hyn yr hoffent ei wneud a sut yr hoffent dreulio eu hamser. Gall y plant fynegi eu barn yn hyderus ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn ystod ein hymweliad. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu parchu'n fawr. Dewisodd y plant eu chwarae drwy gydol y dydd ac roeddent yn ymuno â gweithgareddau a gynlluniwyd gan y gwarchodwr plant yn frwdfrydig.

Mae'r plant yn hapus iawn ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn meithrin cydberthnasau cynnes a charedig â'r gwarchodwr plant ac mae'n amlwg eu bod yn mwynhau bod yn y lleoliad. Gwelsom y plant yn mynd at y gwarchodwr plant ac yn rhyngweithio â hi yn hyderus drwy gydol yr arolygiad. Mae'r plant yn adnabod yr arferion dyddiol yn dda iawn ac yn gwybod eu bod yn cael lleisio eu barn am y ffordd maent yn treulio eu hamser. Mae'r plant yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt pan fyddant yn dweud wrthi eu bod yn teimlo'n drist gan eu bod yn rhy araf yn chwarae gêm ac yn colli. Maent yn cael anogaeth gadarnhaol a chânt eu hatgoffa o'r hyn maent yn ei wneud yn dda iawn.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol dros ben. Maent yn meithrin cydberthnasau gwirioneddol; yn siarad ac yn ymgysylltu â'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, mae grŵp o blant yn eistedd wrth y bwrdd gyda'i gilydd am gyfnod estynedig o amser, yn siarad am y lluniau Pasg maent yn eu creu. Maent yn chwerthin ac yn mwynhau eu hamser gyda'i gilydd yn fawr. Mae'r plant yn dangos empathi a charedigrwydd tuag at ei gilydd. Maent yn dysgu sut i ddatrys problemau drostynt eu hunain. Er enghraifft, pan mae'r plant am gael yr un adnodd, maent yn cymryd eu tro ac yn ei basio ymysg ei gilydd ar ôl iddynt orffen.

Mae'r plant yn ddysgwyr brwdfrydig iawn, yn uchel iawn eu cymhelliant, ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn wrth eu bodd gyda'r gweithgareddau a gafodd eu paratoi, sef helfa wyau a ras wy ar lwy yn yr ardd. Maent wrth eu bodd yn defnyddio eu dychymyg a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn hyderus ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad. Maent yn gyffrous i siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud ac yn mwynhau siarad â ni am eu profiadau. Maent yn gyffrous wrth ddangos nyth robin goch i ni mewn boncyff coeden ac yn chwilfrydig i wybod a oes cywion neu wyau ynddi. Maent yn gwrando ar sibrydion tawel y gwarchodwr plant yn dweud wrthynt am beidio â dychryn y robin goch ac maent yn sibrwd yn ôl yn dawel.

Mae'r plant yn hunan-gynhaliol ac yn annibynnol yn y lleoliad. Maent yn helpu eu hunain i ddiod pan fyddant am wneud hynny a gallant gael gafael ar deganau ac adnoddau yn hawdd. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfniadau'r dydd. Er enghraifft, clirio'r bwrdd bwyta cyn amser bwyd a gosod y matiau ar y bwrdd. Cânt eu hannog i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ar y ffordd maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Mae hyn yn annog annibyniaeth y plant ac yn codi eu hunan-barch.

## Gofal a Datblygiad Rhagorol

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ragorol o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddi ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai angen iddi wneud atgyfeiriad diogelu. Mae'n cefnogi'r plant i ddatblygu arferion hylendid da ac yn eu hannog i olchi eu dwylo yn rheolaidd. Mae'n cynnig bwydydd iach ac yn annog y plant i ddatblygu dealltwriaeth o fwyta'n iach, gan roi amrywiaeth iddynt gael dewis ohono. Mae'n cofnodi pob damwain a digwyddiad yn drylwyr ac mae ganddi systemau priodol ar waith pe bai angen roi meddyginiaethau. Mae'n annog llawer o weithgareddau symud ac awyr agored i hybu sgiliau echddygol bras a datblygiad corfforol y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn cynnal ei rôl yn broffesiynol ac yn y ffordd orau bosibl. Mae'n ymwybodol iawn o anghenion unigol y plant yn ei gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl ragorol, mae'n rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn meithrin cydberthnasau cryf â nhw. Mae'n rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson ac mae ymddygiad y plant yn rhagorol. Mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwarchodwr plant yn dda ac mae'r parch tuag at ei gilydd yn amlwg iawn. Er enghraifft, cafodd y plant a oedd yn chwarae yn yr awyr agored eu hatgoffa i beidio â gwlychu ei gilydd â'r bibell ddŵr a chafodd y cais hwn ei ddilyn. Mae'r gwarchodwr plant yn siarad yn bwyllog â'r plant a phob amser yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol. Mae ei ffordd o ryngweithio bob amser yn denu sylw, ac mae'n trin y plant mewn ffordd gynnes a chyfeillgar iawn. Mae'n cynnig canmoliaeth ac anogaeth yn aml, ac mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i hyn. Mae'r gwarchodwr plant yn cael hwyl gyda'r plant, ac maent yn chwerthin ac yn tynnu coes gyda'i gilydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Mae'n cynllunio amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol yn unol â diddordebau unigol y plant. Er enghraifft, mae'n deall bod gan sawl plentyn ddiddordeb mewn gweithgareddau creadigol a chelf ac mae'n trefnu cyfleoedd sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau yn y maes hwn. Mae'r gwarchodwr plant yn arddangos gwaith celf y plant ac maent yn dangos eu gwaith i ni yn llawn balchder. Mae'n ymgysylltu â'r plant yn ystod gweithgareddau, gan hybu ac ehangu eu dysgu yn naturiol wrth iddynt chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn siarad Cymraeg ac yn hybu'r Cynnig Rhagweithiol.

| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r safle yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae'r fynedfa yn ddiogel, a bydd pob ymwelydd yn cofrestru wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant i sicrhau y gallant adael yr adeilad mewn argyfwng. Mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg priodol ar waith ar gyfer pob ardal o'i gwasanaeth, gan gynnwys teithiau i ffwrdd o'r cartref. Mae nant fach ar waelod yr ardd, a bydd y plant ond yn cael mynd i'r ardal hon dan oruchwyliaeth y gwarchodwr plant. Mae'r ardaloedd dan do a'r awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig lle diddorol i'r plant chwarae a dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ardal chwarae ysgogol, mawr i'r plant fwynhau. Mae'n sicrhau ei fod yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan y plant ryddid i archwilio ei chartref yn ddiogel. Cânt eu hannog i symud yn rhydd ac i ddewis beth yr hoffent ei wneud a lle yr hoffent chwarae. Mae'r plant yn cael budd o ystafell chwarae ddynoedig sydd wedi'i haddurno'n hyfryd ac yn darparu amgylchedd magwrus a diddorol i hybu eu dychymyg, gan gynnwys ardaloedd chwarae rôl dynodedig fel siop pentref a chornel gartref. Caiff yr heulfan ei defnyddio'n benodol ar gyfer celf a chrefft a chwarae blêr. Gall y plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored a gallant ddefnyddio'r ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod yn hawdd, sydd yn lân, mewn cyflwr da ac yn addas i blant. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn aml, ac mae mewn cyflwr da ac yn drefnus. Mae'n rhannu cynlluniau cyffrous a gweledigaeth i ddatblygu'r ardal ymhellach â phergola, i sicrhau ardal wedi'i chysgodi ym mhob tywydd er mwyn darparu ardal chwarae a dysgu awyr agored.

Dan do, mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i archwilio ystod ragorol o deganau ac adnoddau o ansawdd da yn rhydd, i ddiwallu eu hanghenion unigol a'u hoedrannau. Mae cynllun a dyluniad yr ystafell chwarae a'r amgylchedd cyffredinol yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda. Mae'n cyflwyno teganau ac adnoddau sy'n sbarduno archwilio ac yn annog chwarae dychmygol. Er enghraifft, gan mai diwrnod cyntaf gwyliau'r ysgol oedd hwn, roedd wedi trefnu gweithgareddau'r Pasg a gwnaeth y plant fwynhau hyn yn fawr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n galed iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r plant a'u teuluoedd. Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi gwybodaeth gywir a manwl i'r rhieni. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn glir a chânt eu rhoi ar waith yn dda. Cânt eu trefnu yn unol â phob un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Caiff y trefniadau cadw cofnodion dyddiol eu cynnal yn dda iawn ac yn drylwyr ac mae cofnodion clir o bresenoldeb y plant.  Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn fwy aml, mae'n mynd y tu hwnt iddynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn monitro ansawdd y gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau yn effeithiol iawn. Mae'n gofyn i'r rhieni a'r plant am adborth yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth i lunio adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal ac i gynllunio meysydd i'w datblygu, gan fyfyrio ar y flwyddyn diwethaf a'r hyn mae wedi'i wneud sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw wedi gweithio'n dda. Caiff arferion hunan-fyfyrio eu hymgorffori yn y gwasanaeth i sicrhau bod y plant yn fodlon ac yn cael gofal da.

Mae gan y gwarchodwr plant a'i phartner dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff ei datblygiad proffesiynol parhaus ei gynnal drwy gael y wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau. Mae'n sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol, megis diogelwch bwyd a chymorth cyntaf. Ar ben hynny, cafodd hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant ac arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu cynnal, sy'n sicrhau bod ei harferion yn parhau i wella a datblygu er mwyn diwallu anghenion yr holl blant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hwn yn faes sydd o ddiddordeb i'r gwarchodwr, ac mae'n awyddus i ddatblygu ymhellach ac arbenigo ynddo.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cryf a chadarnhaol â'r rhieni. Mae'r adborth a gafwyd gan y rhieni yn gadarnhaol dros ben. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a'r cyfleoedd a gaiff eu plant gyda'r gwarchodwr plant. Dywedodd y rhieni bod y gwarchodwr plant yn hyblyg iawn ac yn barod i helpu ac mae'r cyfathrebu bob amser yn drylwyr iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant allan i draethau, parciau a chestyll lleol. Yr haf diwethaf, aethant i sawl castell yng Nghymru yn ystod y gwyliau haf chwe wythnos, a gwnaeth hynny sbarduno diddordeb mawr yn y plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/05/2024